OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif (Cy. 115)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Trallwng, Powys) (Dileu Cyfyngiad) 2026

*Gwnaed* *3 Medi 2026*

*Yn dod i rym* *4 Medi 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Y Trallwng, Powys) (Dileu Cyfyngiad) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. (W. 115)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 Trunk Road (Welshpool, Powys) (Derestriction) Order 2026

*Made* *3 September 2026*

*Coming into force* *4 September 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A483 Trunk Road (Welshpool, Powys) (Derestriction) Order 2026 and this Order comes into force on 4 September 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order "the trunk road" ("y gefnffordd") means the A483 Swansea to Manchester trunk road.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dileu cyfyngiadau**

**3.** Bydd y darn o'r gefnffordd i'r gogledd-ddwyrain o'r Trallwng, o bwynt 185 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A458 Salop Road hyd at bwynt 183 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A458 Salop Road, yn Sir Powys, yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Medi 2026

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

**Derestriction**

**3.** The length of the trunk road northeast of Welshpool, from a point 185 metres southwest of the centre-point of its junction with the A458 Salop Road to a point 183 metres northeast of the centre-point of its junction with the A458 Salop Road, in the County of Powys, shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 3 September 2026

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government